**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned nos Fercher Tachwedd 27ain 2013 am 7.30 yh yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: Gwydion Jones, Elen Edwards, Ian Griffith

Presennol: Gwyn Williams (Cadeirydd), Ann Vaughan, Diane Roberts, Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Tecwyn Evans, Gerwyn Davies, Cyngh Dilwyn O Roberts a'r Clerc.

Roedd aelod o'r cyhoedd – Mr Seth Jones yn bresennol.

18.1 Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a chroesawodd **Ms Ann Lloyd Williams o Gyngor Conwy a Ms Suryiah Evans i sôn am Brosiect Hiraethog a Thaith y Pererinion**. Esboniodd Ms Ann Lloyd Williams bod Sir Conwy yn arwain y prosiect 'Tywysogion Gwynedd' a bod nifer o bethau ar y gweill megis arddangosfeydd yng Nghonwy, Betws y Coed, Cricieth a Chaernarfon, prosiectau bach ym Mhentrefoelas, Trefriw, Betws y Coed, Dolwyddelan, Abergwyngregyn a Beddgelert. Sir Gwynedd sy'n arwain y prosiect 'Ein Treftadaeth' a Suryiah yn gweithio arno. Bydd arddangosfa yn Llandudno yn y Mwyngloddiau ac maent yn gweithio gyda busnesau. Deallir bod Prosiect y Pererinion yn araf oherwydd bod Ann yn brysur ar brosiect 'Tywysogion Gwynedd'. Esboniodd Suryiah Evans bod gwaith ar y gweill i ddefnyddio ciosg ffôn yn Llansannan ar gyfer hysbysfwrdd ac y bydd man gwybodaeth yn Eglwys San Digain; gobeithir gosod panel yn Llangernyw yn lle'r un presennol ger yr eglwys, gwaith yn Hafodunos, panel yng Ngwytherin, gweithdai barddoni yn dechrau yn Rowen ar 16eg Rhagfyr gyda'r bardd Rhys Trimble. Gobeithir lansio'r prosiect ym mis Gorffennaf 2014. Gofynnwyd a fyddai modd cynnwys arwydd twristiaeth yn hysbysebu Ywen Llangernyw yn y prosiect a chytunodd Ms Williams edrych i mewn i'r mater.

Diolchwyd i'r ddwy am ddod i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

18.2 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

18.3 COFNODION – cynigiodd Ann Vaughan a chytunwyd bod cofnodion cyfarfod Hydref 23ain 2013 yn gofnod cywir.

18.4 CEISIADAU CYNLLUNIO – derbyniwyd ateb gan Un Llais Cymru ynglŷn a thrafod ceisiadau cynllunio mewn cyfarfod heb iddynt fod ar Agenda. Pwysleisir bod rhaid i bob eitem a drafodir ymddangos ar yr Agenda. PENDERFYNWYD i gofnodi y gellir gosod Atodiad i Agenda i fyny yn y pentrefi 3 diwrnod cyn y cyfarfod.

18.5 'ANIFAIL' AR BEN SIMNE – doedd y Swyddog Cadwraeth sirol ddim yn meddwl bod problem ynglŷn a hyn.

18.6 YR HEN EFAIL, LLANGERNYW – mae'r mater yn cael ei ymchwilio a'r Adran Iechyd a Diogelwch yn gysylltiedig.

18.7 DIFFYG GWRES YN ESTYNIAD CANOLFAN BRO CERNYW – gofynnwyd a oedd ateb i'r gwyn ynglŷn a'r diffyg gwres yn y cyfarfod diwethaf. Y Clerc i holi ymhellach.

18.8 MATERION FFYRDD – derbyniwyd llythyr o'r Adran Cynnal a Chadw Llwybrau yn nodi nad oes cyllid i wneud unrhyw waith nad yw o natur frys ar hyn o bryd.

18.9 CEISIADAU CYNLLUNIO
18.9.1 CAIS RHIF 0/40294 Adeiladu adeilad amaethyddol ar dir ger Bont Sylltu, Llangernyw gan Mr Gwynfor Davies. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

18.9.2 CAIS RHIF 0/40309 Adeiladu sied amaethyddol yn Tan y Graig, Llangernyw gan D W &E F Roberts. PENDERFYNWYD i gefnogi'r cais.

18.9.3 RHYBUDD O APÊL RHIF 0/40041 Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer defnydd sy'n bodoli fel annedd yn Quarry Bungalow, Llangernyw gan Ms Antoinette Sandbach. PENDERFYNWYD i beidio rhoi sylwadau.

18.9.4 CAIS RHIF 0/38695 Codi 10 tyrbin gwynt yn Llys Dymper, Gwytherin. Derbyniwyd gwybodaeth ychwanegol ar y cais. PENDERFYNWYD i drafod y cais yn y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 9fed.

18.10 CEISIADAU ARIANNOL – PENDERFYNWYD cyfrannu £30 i Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd 2014 ac i holi Ysgol Bro Cernyw a oedd 'Dawns i Bawb' yn cynnal sesiynau yn yr ysgol.

18.11 ARIAN LLIFOGYDD O LANELWY – trafodwyd y mater a PHENDERFYNWYD holi am brisiau bagiau tywod a lle i'w cadw.

18.12 TOILEDAU LLANGERNYW – derbyniwyd cynlluniau a phrisiau am adnewyddu'r toiledau gan swyddog y Cyngor. Wedi trafodaeth PENDERFYNWYD gofyn i'r Adran faint o arian fydden nhw'n fodlon gyfrannu at y cynllun neu a fyddai'n well mynd am ddatblygiad rhatach.

18.13 GWAITH YM MYNWENT GWYTHERIN – derbyniwyd dau bris am wneud y gwaith o dacluso'r fynwent. PENDERFYNWYD mynd yn ôl i ofyn am fwy o fanylion ar un cais.

18.14 LLYFRGELL GENEDLAETHOL – derbyniwyd cais am ôl-rifynnau o Gylchlythyr y Cyngor Cymuned a chaniatâd i archifo'r wefan fel rhan o gasgliadau'r Llyfrgell. Cytunwyd i wneud hyn.

18.15 Y CYLCHLYTHYR – PENDERFYNWYD i roi gwybodaeth am Dlodi Tanwydd ac Ailgylchu yn y Cylchlythyr cyfredol.

18.16 MATERION LLEOL
18.16.1 Cais am flwch dal graean yng nghanol Llangernyw ar gyfer y palmentydd.
18.16.2 Dŵr yn creu problemau ger Petryal.
18.16.3 Car wedi mynd i'r afon ger pont Rhwngyddwyffordd.
18.16.4 Dŵr ar y ffordd ger Tyn Terfyn ar ffordd Foel Gadeiriau.
18.16.5 Giat wedi ei chloi a weiar drydan ar draws llwybr Tyn y Caeau ger Bont Faen.

18.16.6 Gofynnodd aelod o'r cyhoedd Mr Seth Jones a fyddai modd cael gweld yr wybodaeth a dderbyniwyd gan Adran Cynllunio ynglŷn a chanllawiau cynllunio tyrbinau gwynt.

18.17 BILIAU
W & M Davies (Gwaith ym Mynwent Garnedd) £690
(Diolchwyd i Tecwyn Evans am hadu ychydig yn Mynwent Garnedd)

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45 yr hwyr.

*Cymeradwywyd y Cofnodion Arwyddwyd..Elen H.Edwards.............. Dyddiad 15/1/14........*

Community Council Meeting was held on Wednesday 27th November 2013 at 7.30 pm at Gwytherin

Apologies : Gwydion Jones , Elen Edwards , Ian Griffith

Present : Gwyn Williams (Chair ) , Ann Vaughan , Diane Roberts , Gwynfor Davies , Emlyn Williams , Tecwyn Evans , Gerwyn Davies , Cllr Dilwyn Roberts & Clerk .

A member of the public - Mr Seth Jones was present .

18.1 The Chair welcomed everyone to the meeting and welcomed Ms Ann Lloyd Williams of Conwy Council and Ms Suryiah Evans to talk about Pilgrims Way/Hiraethog Project. Ms Ann Lloyd Williams explained that Conwy County leads the ' Princes of Gwynedd ' project and that many things in the pipeline such as exhibitions in Conwy , Betws -y-Coed , Criccieth and Caernarfon , small projects in Pentrefoelas , Trefriw , Betws y Coed , Dolwyddelan , Aber and Beddgelert . Gwynedd County is leading the project ' Our Heritage ' which Suryiah is working on. An exhibition in Llandudno in the Mines and work with businesses . It is understood that the Pilgrim Project is slow because Ann is busy on the project ' Princes of Gwynedd ' . Suryiah Evans explained that work is under way to use a phone box in Llansannan for billboard and an information point in St Digain Church; hoped to replace Llangernyw panel near the church , work at Hafodunos , panel in Gwytherin , poetry workshop in Rowen begins on December 16 with the poet Rhys Trimble . Hoped to launch the project in July 2014. Asked whether it could include tourism sign advertising Yew Tree Llangernyw in the project and Ms. Williams agreed she would look into the matter .

Both were thanked for attending the meeting by the Chairman .

18.2 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the Agenda .

18.3 MINUTES - Ann Vaughan proposed and all agreed that the minutes of the 23rd of October 2013 was an accurate record .

18.4 PLANNING APPLICATIONS – message was received from One Voice Wales on discussing planning applications in a meeting without being on Agenda . Emphasized that each item of discussion to appear on the Agenda . RESOLVED to record that an Attachment can be displayed next to the Agenda in the villages 3 days before the meeting.

18.5 ' ANIMAL ' ON TOP of chimney - Conservation Officer did not think there was an issue with this .

18.6 THE OLD FORGE , LLANGERNYW - the matter is being investigated and Health and Safety are involved .

18.7 LACK OF HEAT IN CANOLFAN BRO CERNYW EXTENSION - it was asked if there was a response to complaints about the lack of heat in the last meeting . Clerk to inquire further.

18.8 HIGHWAY MATTERS - received a letter from Rights of Way Conwy that there is no funding to do any work on the paths that is not urgent of the moment .

18.9 PLANNING APPLICATIONS
18.9.1 APPLICATION NUMBER 0 / 40 294 Erection of agricultural building on land near Bont Sylltu, Llangernyw by Mr Gwynfor Davies . RESOLVED to support the application .

18.9.2 APPLICATION NUMBER 0 / 40 309 Construction of agricultural shed at Tan y Graig , Llangernyw by DW & EF Roberts . RESOLVED to support the application .

18.9.3 NOTICE OF APPEAL NUMBER 0 / 40 041 Certificate of lawfulness for existing use as a dwelling Quarry Bungalow, Llangernyw by Ms. Antoinette Sandbach . RESOLVED not to comment .

18.9.4 APPLICATION NUMBER 0 / 38 695 Erection of 10 wind turbines at Llys Dymper , Gwytherin . Additional information was received on the application . RESOLVED to discuss the request at the next meeting on December 9th .

18.10 FINANCIAL CONTRIBUTIONS - RESOLVED to donate £ 30 to the Urdd Eisteddfod Meirionnydd 2014 to inquire with Ysgol Bro Cernyw if ' Dance for All' held sessions at school .

18:11 FLOOD MONEY FROM ST ASAPH - discussed the matter and RESOLVED to inquire about prices of sandbasg and a place to keep them in the area.

18:12 LLANGERNYW TOILET - plans and prices received for refurbishing the toilets by an officer of the Council . After discussion it was RESOLVED to ask the Department how much money they were willing to contribute to the plan or would it be better to go for cheaper development .

18:13 CEMETERY WORK IN GWYTHERIN - received two prices for doing the work of tidying the cemetery . RESOLVED go back to ask for more details on one application .

18:14 NATIONAL LIBRARY - received a request for back issues of the Community Council Newsletter and permission to archive the website as part of the Library's collections . It was agreed to do this .

18:15 NEWSLETTER - RESOLVED to provide information on Fuel Poverty and Recycling in the current newsletter .

18:16 LOCAL ISSUES
18.16.1 Request for grit box in the middle Llangernyw for the pavements .
18.16.2 Water creating problems near Petryal .
18.16.3 Car had gone to the river by the bridge Rhwngyddwyffordd .
18.16.4 Water on the way on a road near Tyn Terfyn and Foel Gadeiriau .
18.16.5 Gate is locked and electric wire across the footpath Tyn Caeau near Pont Faen.
18.16.6 member of the public Mr. Seth Jones asked could he see the information received from the Department of Planning re planning guidance on wind turbines .

18.17 BILLS
W & M Davies ( Work Garnedd Cemetery ) £ 690
( Thanks to Tecwyn Evans for sowing seeds at Garnedd)

The meeting ended at 9.45 pm.

Minutes were approved Signed .EH Edwards.......................... Date ...15/1/14................